

Y Dathlu

Dafydd Parri

(7) Gwyddwn ei bod yn hanner nos
union pan glywn y canu yn codi'n
orfoleddus fel llanw drwy do y cantŷn
gwlyb. Swniodd y llong olew ei hwter
wrth lusgo'n araf i fyny'r gamlas i
gyfeiriad Port Said, a sylweddolais ei
bod hi'n fore Nadolig arnaf yn y
diffeithwch unwaith eto.

Cerddais yn anesmwyth o gwmpas yr

ystafell fechan a neilltuwyd ar gyfer
comander y gard, ac yna drwy'r drws
agored i'r cnytedd lle gorffwysai'r milwyr
ar y gwelyau tresl, tra'n disgwyl eu
tro cyn mynd allan ar ddyletswydd o
gwmpas y gwersyll. Setais am funud
nuch eu penau. Gorweddent yn atrosgo
a bler ar y matresi gwellt, pob un
â'i gap dros ei lygaid a botymau uchaf
ei grys wedi eu datod. Nid oedd
un ohonynt wedi trafertu i dymnu ei

esgidiau ac roedd pennau'r hoelion yn
sgleinio'n loyw ar ôl trampio bob dydd
drwy'r tywod gwyn. Ond ni cherddent
heno bellach ar ôl yfed mwy na'u
gwala drwy'r bore a'r pnawn, er mwyn
esgus anghofio.

Nid oeddwn yn gwarafun dim iddynt.
Byddai'n dda gen innau hefyd pe
gallwn anghofio popeth. Gwastraff oedd
gwyliadwriaeth nos a gwastraff fu fy
mlynyddoedd gyda'r fyddin yn yr Aifft.

Gwastaff ydi bywyd...

welais i erioed..."

Edrychais allan drwy'r ffenest dros wifren

bigog y gweryll; nid oedd cilcyn o

leuad heno hyd yn oed, ond roedd

myrdd o ser yn britho'r awyr a phob

un ohonynt yn graddol losg'n lludw

fel finau. Dim ond blynyddoedd amser

oedd yn ein gwahanu. A rhith ydi

amser. Rhith sy'n llenwi'r gwagle rhwng

crit'r geni a rhoch olaf angau.

Cerddais allan a phwysais fy mreichiau

“Rhaid i ti ei ateb, Garmon!”

Sylweddolodd Jo nad oeddwn yn bwriadu
symud o gwbl. Petrusodd ac edrychodd
i gyfeiriad y drws agored. Yna wedi
iddo daflu cip arall arnaf cerddodd
heibio traed y milwyr i'r ystafell fach.
“Hylo! Tŷ'r Gard El Ballah... Na does
dim angen hynny o gwbl, Sarsiant
Highbury. Mae'n fendigedig o dawel yma.
Rydym ni'n gallu clywed y carolau a
gweld y Seren. Dyma'r Dolig hyfrytaf

ar y polyn praff gwyn oedd yn
llidiartu'r adwy rhwng ffald y gwerysll
a'r diffeithwch oedd yn ei amgylchynu.
Dechreuais rifo'r sêr, eu casglu'n glystyrau,
a'u trefnu'n batrymau. Daeth carol arall
o'r cantîn ac ysgogodd fi i chwilio'r
nefoedd am Seren Bethlehem dyddiau hud
a lledrith fy ieuentid gynt.
Seiniodd y ffôn yn y Tŷ Gard.
Tybiais am ennyd mai (8) breuddwydio
oeddwn i. Ond daliodd i alw mor

daer â'r Seren yn y stori er nad
oedd chwe cysgudur y gwelyau tresl
wedi cyffroi o gwbl.

"Comander y Gard, El Ballah!" cyhoeddais.

"Pwy sy'n siarad?" gofynodd llais craciog

pell.

"Corporal Phillips."

"Dyna ffwl dwl wyt ti wedi cael dy

ddal ar noson Dolgi Sarsiant Highbury

sydd yn y pen yma. Oes yna gell

wag acw henoz?"

na hynny... Wn i ddim sawl gwaith

i gyd. Roedd pawb wedi dychryn.

Roeddod y ddau sarsiant allan o'r

golchdy ac fe godais innau'r ferch ar

ei thraed a'i dal yn dynn nes daeth

swyddog ac uwch sarsiant i mewn..."

Canodd y ffôn yn y swyddfa eto.

Ond allwn i ddim symud o'r fan.

Teimlwn yn ogoneddus o hapus. Gallwn

dorri allan i ganu a molianu fel

carcharor wedi torri ei gadwynau.

lloerig yn gryf fel llew. Roedd yr
eneth yn ddiymadferth yn ei grafangau
erbyn hynny ac yn wylo'n histeraidd
mewn ofn dychrynlyd. Welais i erioed
y fath ofn yn llygaid neb o'r blaen.
Roedd arni ofn ei gorff a'i reddfau
ffiaidd. A fedrwn i ddim mo'i symud
oddi arni. Yna pan welais i Norton
yn brathu ei bronau tyner gafaelais yn
fy nghyllell a'i phlannu yn ei gefn...
unwaith, dwywaith, teirgwaith, ac amlach

"Does neb o gwbl dan glo hyd yn
hyn beth bynnag."

"Campus!"

"Pam?"

"Mae gen i denant pwysig ar gyfer
un o'r celloedd. Dim ond tan bore
fory."

"Hwyrach y byddai'n well i mi alw
Lifftenant Short."

"Heno? Ar noswyl Dolig! Does yna

ddim un swyddog sy'n werth piaster a

hammer ar hyd y gamlas erbyn hyn."

Yr oedd yn dweud y gwir, rhaid

oedd i mi gyfuno.

"Ond rwyf i'n swio'n etha sobor.

Mae'n well i ti barhau i fod felly

tan y bore."

"Beth ydi'r cyhuddiad?"

"Llofruddiaeth! Un brwt iawn hefyd.

Mi gododd gyfog arna i. Ond mi

fyddai'n gallu anghofio'r cwbl amdano ar

creadur mewn magl pan synhwyrodd beth

oedd ar fin digwydd. Rhuthrodd ei

rhieni i geisio'i harbed ond daliodd

partneriaid Norton yn y ddau gefydd

eu hysgwyddau er mwyn eu gorfodi i

wylio'r treisiad."

Claddodd y Negro ei wyneb yn ei

ddwyllo. Siglodd ei ben a griddfan.

"Allwn i ddim sefyll o'r neilltu ddim

rhagor. Rhedais ar draws llawr y

golchdy i'w rwystro, ond mae dyn

Fe ddychrynodd (12) yr Eiffes ifanc, ond
wnaeth hynny ddim ond hogi tymer
Norton. Ar amrantiad trodd ei wylltineb
yn flys. Mi welais y newid yn
ei lygaid. Roedd wedi penderfynu ei
threisio o flaen llygaid ei rhieni y
funud honno, a chael boddhad dwbl
yn ei orchest...”

Tynnais anadl sydyn ond tanbeidiodd
llygaid Jo a selio fy ngwefusau'n dynn.

“Gwingodd ac ymladdodd y llances fel

ôl bod acw. Gofala di bod popeth
mewn trefn. Byddaf draw cyn pen
hanner awr.”

Crynodd fy llaw. Chwiliais am sigarét
a'i chynnu ar frys. Tybed a ddyliwn
i alw ar Short? Cofiais fod y lori
wedi mynd i glwb y swyddogion ers
awr, a bod gyr o Roegesau bach
gwelw o Ismailia yn swatio dan y
garthen. Fe gollai'r lifftenant yr hwyl
i gyd a byddai'n teimlo fel efrydd

yn setyllian ar ymylon bywyd am fis
a mwy wedi'r Wyl. Derbyn cyngor
y sarsiant oedd oran i mi. Roedd
ganddo et brofiad o fywyd. Gwyddai
sut oedd cadw rheolau, a gwyddai sut
i'w torri i gyd yn deilichion yn ôl
y galw.

Lithrodd lwm p o ofn i'm gwddf pan
glywais swn peiriant yn gyrru i gyfeiriad
y gwerysll ar hyd y ffordd dar.
Rhuthrais drwy'r drws, rhois gic i'r

"Dyna'r diwedd!" meddwn.
Taniodd llygaid Jo wrth fynu dwend
rhagor.
"Safodd pawb yn syrddan yn y golchdy,
fel fflm wedi torri. Ac wedyn dyna'r
ddau sarsiant arall, partneriaid Norton, yn
chwerthin yn aflafar dros y lle:"

"A dyna Norton yn gwallgof?"
"Do. Fe lamodd am yr eneth fel
anifail rheibus. Gwthiodd hi wysg ei
chefn ar lawr a rhwygodd ei dillad.

ofnadwy ac yn igian crio. Ofn i'r
teulu gollir drwydded gweithio a gorfod
gadael y gwersyll. Wedyn dyna'r ferch,
geneth tua phymtheg oed, yn sefyll
yn ddewr fel dur o flaen Norton a
rhythu cywilydd i'w lygaid. A'r ennyd
nesa dyna hi'n ei daro ar draws ei
foch gyda'i dwrn!"

Gwasgodd y Negro ei ddyrnau nes fod
y migyrnau'n pigo'r croen. Roedd yn
methu dod o hyd i'r geiriau.

gwelyau agosaf ac ysgwyd dau lipryn
meddw nes iddynt godi ar eu traed.
Gwthiais ddrylliau i'w dwylo a gyrrais
y ddau allan o'm blaen i godi'r
polyn.

"I mewn â fo i Dŷ'r Gard! Brysiwch,
y diawliaid!"

(9) Tynnodd y sarsiant dusw o bapurau
o boced ei frest.

"Rhaid i ti arwyddo, corporal."

Cyn crymu dros y papur codais fy

mhen i edrych ar y carcharor oedd

yn sefyll yn y drws gyda gefymau

am ei ddau arddwn.

“Dui” meddwn mewn syndod.

“O Ynsoedd India'r Gorllewin. Bastardiaid

anhylaw fu'r criw yna erioed.” Trodd a

chododd ei ddwrn arno. “Ond wnaiff

run mochyn du ddifetha noswyl Dolig

i mi!”

Llanç tal cydnerth oedd y Negro, ond

roedd boliau gwynion ei lygaid yn

Dolig medde fo. Pan ymbiliodd yr

Eiffitiwr arno i setlo'r ddyled gwyllhiodd

y sarsiant, sgu'bodd bentryrau o ddilladau

glân oddi ar y bwrdd gyda chefn ei

law nes eu bod ar hyd y llawr

yng nghanol y trochion budr.”

Caeodd y Negro ei lygaid ac ochneidiodd

yn galed. Gosodais fy llaw ar ei

ysgwydd nes y teimlodd yn ddigon

cryf i fynd yn ei flaen.

“Y wraig... Roedd hi wedi dychryn yn

gefynnau.”

“Dywed dy stori, Jo. Rhaid i ni rannu popeth gyda'n gilydd heno.”

Meddylodd yn ddwys am ennyd cyn dechrau.

“Roeddwn i'n sefyllian yn nhŷ golchi Hassan y dhobi pan gerddodd tri sarsiant i mewn yn feddw gaib. Gwaeddodd Norton am ei ddillad glân, ac wedi iddo gael y pecyn yn ei ddwylo fe wrthododd dalu, am ei bod yn

aflonydd. Edrychai'n syn arnaf fel pe bai'n ceisio cofio ble roedd wedi fy ngweld o'r blaen. Torrais fy enw'n frysiog ar y ffurflen. Mae pob dyn du yn edrych run fath i mi bob amser.

Gwthiwyd ef i mewn i'r gell ganol a chleciodd y bolltau wrth lithro i'w lle. Profodd y sarsiant y clo ac yna gosododd ei law yn gyfeillgar ar fy ysgwydd cyn ymadael. Taniais sigarét

arall cyn i swn y ffriddiannu yn
y tywyllwch, a honciodd y ddau filwr
yn ôl i'w gwelyau ar ôl gollwng y
polyn i gau'r adwy.

Cyn pen awr clywais swn curo gwyllt
ar ddrws y gell. Disgwyliais iddo roi'r
gorau iddi ond nid oedd blino arno.
Cerdais ar flaenau fy nhraed i wrando.
"Rydw i'n gwybod dy fod ti yna,
corporall Rhaid i mi gael mynd i'r
tŷ bach."

fel dynion o ewyllys da. Rydym wedi
trechu'r hen ofnau oedd yn ein blingo
a'n rhwgo haner awr yn ôl."
"Fi oedd yn ofnus Jo. Ofn mi fy
hun!"

Chwarddod y Negro cyhyrog.

"Mae gen ti wn wrth dy wregys,
ac mae dyn ofnus gyda gwn yn
beryllus. Rydw i'n gwybod hynny ar
ôl digwyddiadau'r pnawn yma. Dyna
pam y daethant a fi yma mewn

“Rwyf ti'n iawn.”

“Eisiau cwmni?”

“Dy gwmi di.”

“Ond fedra i ddim gwneud dim byd

drosot ti. Dim ond (11) corporal ydw

i, ac un digon disylw hefyd.”

Gwenodd Jo ac roedd ei lygaid cyn

wynned â'r Seren.

“Mae angen y naill ar y llall ohonom

heno. Rhaid i ni wrth gwmi'n gilydd

“Mae yna fwced yn y gornel.”

“Ac mae dy lais dithau'n crynu. Pam

mae arnat ti ofn? Fyddai gen i ddim

rhithyn o ofn pe baet ti'n agor y

drws yma.”

“Mae'n amhosibl! Fe ddaw'r bore yn

gynt nag mae run ohonom ni'n dau'n

feddwl.”

“Y cwbl rydw i'n ofyn i ti wneud

ydi cerdded gyda mi at y tŷ bach

agosa. Ac mi rydw i'n fodlon i ti

gario gwn yn dy law os mymi:"

Bodiais garn y dryll wrth fy ngwregys

ond ni roddodd ronyrn o hunan hyder

i mi. Daliodd y Negro i siarad.

"Rydw i'n gwybod fod arnat eisiau

ymdiried ynof, ond mae dy ohanu yn

dy rwystro. Mae gen i bit o eigion

fy nghalon drosot ti."

Ceisais feddwi fy synhwyrâu drwy hel

meddyliau braf am drannoeth. Fe gerddwn

allan o'r Tŷ Gard yn ddyn rhydd

ac yn sgrechian yn lle gwrando arni."

Tynais yr allwedd o fy mhoced a'i

gwthio'n drwsgl i dwll y clo. Gwichiodd

y bollau wrth i mi eu symud. Agorodd

y drws yn araf wrth ei bwysau nes

bod jo a minnau wneb yn wneb,

ac estynodd ei freichiau i'm crosawu.

Ond sleifiodd ofn i fy nghalon unwaith

eto, sychodd fy llwnc a dechreuodd

gwythien forthwyllo yn fy arlais.

"Esgus oedd y fy bach, ynté, jo?"

a chydiais yn ysgafn yn ei law.

Caeodd ei fysedd yn dynn amdani a

chlywais fy hun yn ochneidio. Llaw

cyfaill ydoedd.

“Rydw i'n teimlo'n well, Garmon. Roedd

dy ofnau di gynnu yn fy nychryn

i. Nawr rydym ni'n ymddiried yn ein

gilydd ac yn parchu'n gilydd. Rwyt

ti'n gwrando ar lais yn dy galon. A

chofia mai'r galon sy'n dweud y gwir

bob amser, er ein bod ni'n strancio

am chwech o'r gloch y bore ac yna

fe awn i dreulio tridiau llawen (10)

yn Fayid gyda Huw a Robin. Os

oeddwn am lyfu'r mêl yna ar flaenau

fy mysedd yfory roedd rhaid i mi

gadw at reolau'r warchodaeth a pharchu

defodau'r fyddin. Beth a wyddai'r creadur

du yma o lannau'r Caribi am reol a

threfn ac yntau'n tarddu o gymdeithas

anwar wyllt? Dyn lloerig ydoedd, y

diffeithwch wedi crebachu ei grebwyll a

wisgi gwareiddiad yn cwrsio fel meirch

carlamus drwy ei waed. Ond gallwn

ei glywed yn anadu'n gyflym tu ôl

ir drws unwaith eto. Roedd yn fy

ngortodi i glustfeinio.

“Rydw i'n gwybod dy fod ti yna o

hyd, corporal. Joseph King ydi f'enw

i, ac rydw i eisiau i ti ngalw i'n

fo.”

Disgwyliodd am ateb. Gwyddwn ei fod

yn erlyn arnaf. Ni allwn ei wrthod.

“Garmon... Garmon ydi f'enw inau.”

“Mi rydw i'n hoffi dy enw di. Ac

rydw i'n dy nabod di'n well nawr.

Aros i mi gael estyn fy llaw i

ti dan y drws. Byddwn yn ffrindiau

wedyn.”

Clywais ei swn yn ystwyrian a'r eiliad

nesaf daeth penau ei fysedd i'r golwg.

Syllais ar y cnawd tywyll, ar eu cefnau

hirion, y croen goleuach rhyngddynt a

gwid gwaed dan bob ewin. Gwyrais